**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol

**Cyfarfod Aml-leoliad - Ystafell Gaerloyw, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Gwener, 1 Medi 2023 am 10.00am**

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd P M Matthews (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| J P Curtice | P Downing | N Furlong |
| S Joy | P Lloyd | M W Locke |
| C L Philpott | B J Rowlands | L V Walton |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Lynda Anthony | Rheolwr Gwasanaeth |
| Aled Gruffydd | Cyfreithiwr Cyswllt |
| Kath Thomas | Swyddog Trwyddedu |
| Samantha Woon | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): V A Holland

---

## 19 Datgeliadau o Fuddiannau Personol a Rhagfarnol

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 20 Cofnodion:

**Penderfynwyd** cytuno bod cofnodion y Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol a gynhaliwyd ar 4 Awst 2023 yn gofnod cywir.

## 21 Gwahardd y Cyhoedd

Gofynnwyd i'r Pwyllgor wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitemau busnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad ar y sail eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel a nodir ym mharagraff gwahardd 12A o Ddeddf

Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad i Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitemau busnes a nodir yn yr adroddiad.

Ystyriodd y pwyllgor Brawf Budd y Cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes lle'r oedd Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol fel a nodir yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd** gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitemau busnes canlynol.

**(Sesiwn Gaeëdig)**

## 22 Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847 a Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 – Cais am ganiatáu Trwydded Gyfyngedig i Yrru Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat - AJ.

Manylodd y Rheolwr Gwasanaeth ar y cefndir mewn perthynas ag AJ.

Gofynnodd yr aelodau gwestiynau i'r swyddogion a ymatebodd yn briodol,

Esboniodd AJ yr amgylchiadau sy'n ymwneud â'r mater ac atebodd gwestiynau'r aelodau.

**Penderfynwyd:**

1) Caniatáu cais AJ am drwydded i yrru cerbyd hacni a hurio preifat.

Rheswm dros y Penderfyniad

Roedd yr aelodau'n fodlon bod AJ yn berson addas a phriodol a chaniatawyd y drwydded ganddynt.

## 23 Y Diweddaraf am Gamau Gweithredu Di-oed/Canlyniadau Apeliadau

Nodwyd.

Daeth y cyfarfod i ben am 10.16am

**Cadeirydd**